

## Tasg 1

# Dau fywyd

### Cwestiwn ... cwestiwn ... cwestiwn

1. Mewn parau, trafodwch y cwestiynau yma. Rhowch resymau i gefnogi'ch syniadau bob tro.

- a. Pwy sy yn y llun?
- b. Ble maen nhw? Ym mha dref / ddinas tybed?
- c. O ba fath o gefndir maen nhw'n dod, tybed?
- ch. Pa fath o bobl ydyn nhw? Edrychwch am gliwiau, e.e.
  - Beth maen nhw'n ei wisgo?
  - Beth sydd ganddyn nhw?
  - Beth maen nhw'n ei wneud?
  - Beth mae'r dyn ar y dde'n ei wneud ar ei ffôn?
- d. Pa fath o fywyd sydd ganddyn nhw?
- dd. Beth maen nhw'n ei wneud drwy'r dydd? Triwch ddychmygu beth maen nhw'n ei wneud o awr i awr a sut maen nhw'n teimlo.
- e. Beth fydd yn digwydd nesaf yn y llun, tybed?

Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill.

2. Mewn grwpiau o dri:

Dychmygwch fod y dyn mewn siwt yn siarad â'r dyn ar y stryd a'i fod, yn y pen draw, yn rhoi benthg y ffôn iddo er mwyn iddo ffonio rhywun.

- Beth maen nhw'n ei ddweud wrth ei gilydd?
- Ydy'r dyn mewn siwt yn holi'r dyn ar y stryd am ei gefndir? Ydy e'n / o'n cynnig bwyd neu arian neu ddiod iddo yn ogystal â'r ffôn?
- Pwy mae'r dyn yn ei ffonio a beth mae e'n / o'n ei ddweud?

Ysgrifennwch y sgwrs rhwng:

- y dyn mewn siwt
- y dyn ar y stryd
- y llais ar ben arall y ffôn.

Actiwch y sgwrs o flaen y dosbarth.